Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

# Prosiect Rheoli Perygl Llifogydd Porthmadog | 2

## Ein gwaith yn yr ardal astudio

**Cyfoeth Naturiol Cymru yw corff amgylcheddol mwyaf Cymru. Ynghyd â rheoli perygl llifogydd, mae gennym lawer o ddyletswyddau a chyfrifoldebau cyfreithiol i sicrhau ein bod yn diogelu'r amgylchedd eithriadol yr ydym yn byw ynddo yn awr ac yn y dyfodol.**

**Er mwyn cyflawni hyn, rydym wedi dechrau cynnal nifer o arolygon arbenigol i'n helpu ni i ddeall cyflwr natur ar hyn o bryd. Dyma ein gwaelodlin. Byddwn yn defnyddio asesiad amgylcheddol i sicrhau bod yr holl gymeradwyaethau angenrheidiol yn eu lle ar gyfer unrhyw waith y gallem ei wneud.**

**Rhaid i ni: amddiffyn amgylchedd naturiol a hanesyddol, defnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy, ceisio ffyrdd i osgoi Argyfyngau Hinsawdd ac Ecolegol.**


### Y prosiect

- Rydym wedi diweddaru'r model llifogydd a chynnal arolygon amgylcheddol newydd fel rhan o'r broses o gasglu tystiolaeth.
- Rydym yn asesu opsiynau Rhestr Hir er mwyn cyrraedd Rhestr Fer ac Opsiwn a Ffefrir, gan flaenoriaethu gostwng perygl llifogydd i bobl a chartrefi.
- Rydym yn gwrando ar, ac wedi ystyried, ymatebion i lythyrau torfol 2021.

### Y tu hwnt i gwmpas y prosiect hwn, ond yn parhau:

- Rydym yn archwilio, yn gweithio ac yn cynnal amddiffynfeydd llifogydd gan weithio gyda pherchnogion asedau a sefydliadau eraill.
- Rydym yn bodloni dyletswyddau cadwraeth a rheoleiddio i ddiogelu'r amgylchedd.
- Rydym yn gyfrifol am gynnal ffosydd o fewn Ardaloedd Draenio Mewnol Llanfrothen a Glaslyn a Phensyflog.
- Rydym yn cyhoeddi rhybuddion llifogydd ar gyfer yr arfordir a rhybuddion llifogydd ar gyfer yr harbwr.

**Mae mapiau gyda Gwybodaeth Amgylcheddol fanwl ar gael ar gais.**




**Safleoedd allweddol o bwysigrwydd amgylcheddol**
Rhif trwydded arolwg ordnans: 100019741